

Methiannau o ran Adrodd Ariannol a Gwneud Penderfyniadau Anghyfreithlon – Cyd-fwrdd Claddu Abergele

Blwyddyn archwilio: 2017-18 a 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2572A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

Cynnwys

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddiffygion o ran trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol ar Gyd-fwrdd Claddu Abergele a methiant ei gynghorau cyfansoddol, Cyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel i sefydlu trefniadau craffu priodol ar y Bwrdd Claddu. Mae'n cynnwys argymhellion ysgrifenedig a wnaed o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ers canol 2016, mae'r Bwrdd Claddu wedi methu â sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'w harchwilio yn unol â gofynion statudol	6
Er gwaethaf cyfrifoldebau'r Bwrdd Claddu, o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o swyddogaethau'r Bwrdd Claddu a'r cynghorau tref bu gwaith Cyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel yn goruchwyllo'r Bwrdd Claddu yn ddiffygiol	8
Bydd cyflogi cynghorydd mewn swydd mewn swyddogaeth â thâl gan y Bwrdd Claddu yn gwneud unrhyw daliad cydnabyddiaeth a delir i'r cynghorydd yn anghyfreithlon yn ei swyddogaeth yn Glerc y Bwrdd Claddu	11
Nid yw'r Pwyllgor na'r Cynghorau wedi datgelu'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei datgelu'n gyhoeddus	12

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau a'r casgliadau sy'n deillio o fy archwiliad o Gyd-fwrdd Claddu Abergele ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2016-17 i 2018-19. Yn ystod yr archwiliad, tynnwyd fy sylw at faterion a oedd yn dangos diffygion o ran llywodraethu ariannol a gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn cysylltiad â cholli cyllid ar gyfer prosiect Lleisiau Lleol a materion yn ymwneud â thelerau ac amodau cyflogaeth y cyn-Glerc. Mae fy adroddiad yn tynnu sylw'r Cyngor at y methiannau hyn o ran llywodraethu ariannol a gwneud penderfyniadau.
- 2 O dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), mae'n rhaid i mi ystyried a ddylwn i, er budd y cyhoedd, wneud adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod yn hysbys i mi yn ystod fy archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyd-fwrdd Claddu Abergele (y Bwrdd Claddu), Cyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel (y Cynghorau) neu er mwyn iddo gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd. Mae'n rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn i gyhoeddi argymhellion ysgrifenedig o dan adran 25 o Ddeddf 2004 ai peidio.
- 3 Wrth ystyried pa un a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd neu gyhoeddi argymhellion statudol ai peidio, ystyriaf faint ac effaith y materion yr wyf wedi'u nodi a'r camau y mae'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau wedi'u cymryd wedi hynny i wella trefniadau a all leihau'r perygl y bydd methiannau o'r fath yn digwydd eto.
- 4 O ystyried y camau a gymerwyd eisoes gan y Bwrdd Claddu a'r Cynghorau yn ystod 2020 a 2021 a natur ac effaith gyffredinol y materion yr wyf yn adrodd arnynt, rwyf wedi penderfynu peidio â chyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd a bod argymhellion statudol yn ddigonol.
- 5 Felly, er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau i atal problemau tebyg rhag codi eto yn y dyfodol, gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig, rwy'n gwneud argymhellion ysgrifenedig o dan adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

Cyd-fwrdd Claddu Abergele

- 6 Mae'r Bwrdd Claddu yn gwasanaethu dwy gymuned, Abergele a Thywyn a Bae Cinmel, gan ddarparu gwasanaethau claddu ar ran y ddau Gyngor. Mae ei incwm a'i wariant blynyddol yn amrywio oherwydd natur y gwasanaethau a ddarperir. Ariennir y gwasanaethau hyn gan gyfraniadau a ddarperir gan y Cynghorau a gan ffioedd claddu a godir am wasanaethau i'r cyhoedd. Mae **Arddangosyn 1** yn rhoi trosolwg o incwm a gwariant y Bwrdd Claddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Arddangosyn 1: derbyniadau a thaliadau

	2015-16	2016-17	2017-18 ¹
Balans agoriadol	£74,963	£77,433	£82,949
Ardoll gan gynghorau cyfansoddol (+)	£7,250	£4,311	£0
Derbyniadau eraill gan gynnwys ffioedd claddu (+)	£8,454	£11,641	£3,759
Costau staff (-)	£4,130	£0	£0
Taliadau eraill (-)	£9,104	£10,436	£9,473
Balansau terfynol	£77,433	£82,949	£77,235

Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol Cyd-fwrdd Claddu Abergele

- 7 Mae'r Pwyllgor yn cael ei ariannu o'r pwrw cyhoeddus, naill ai o'r ffioedd a godir am gladdedigaethau neu gan ardollau ar Gyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel. Mae'r ddau gyngor tref eu hunain yn cael eu hariannu gan braesept gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ariennir y praesept o daliadau treth gyngor ychwanegol a godir ar dalwyr y dreth gyngor yn Abergele a Thywyn a Bae Cinmel . Felly, mae'r Pwyllgor yn atebol i'r etholwyr lleol.
- 8 Fel arfer, mae cyrff llywodraeth leol bach fel y Bwrdd Claddu yn dibynnu ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Fel arfer, penodir y Clerc hefyd yn Swyddog Cyllid Cyfrifol (RFO). Mae'r RFO yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.
- 9 Clerc/RFO y Bwrdd Claddu yw'r Cynghorydd Delyth McRae. Mae'r Cynghorydd McRae yn gynghorydd mewn swydd ar Gyngor Tref Abergele. Cyfeirir at Mrs McRae fel y Clerc ar gyfer gweddill y ddogfen hon.
- 10 Er bod swyddogaeth y Clerc/RFO yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), cyfrifoldeb y Cyngor (hynny yw yr aelodau) yw gwarchod arian y Bwrdd Claddu, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

¹ Hyd yn hyn ni ddarparwyd cyfrifon ar gyfer 2018-19 a 2019-20.

- 11 Fel pwyllgor o ddau gyngor tref, mae gan y cyngorau tref ran bwysig i'w chwarae hefyd o ran llywodraethu'r Bwrdd Claddu. Felly, cyfeirir yr adroddiad hwn i Gyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel yn ogystal â'r Bwrdd Claddu.

Ers canol 2016 mae'r Bwrdd Claddu wedi methu â sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'w harchwilio yn unol â gofynion statudol

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Bwrdd Claddu baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn, i'r cyfrifon hynny gael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac i wneud trefniadau i archwilio ei gyfrifon yn gyhoeddus

- 12 Mae Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn datgan bod yn rhaid i bob corff llywodraeth leol yng Nghymru (gan gynnwys cydbwyllgorau cyngorau cymuned) lunio cyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn ac mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y cyfrifon hynny'n cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Claddu gyhoeddi cyfrifon wedi'u harchwilio erbyn 30 Medi bob blwyddyn.
- 13 Mae Deddf 2004 hefyd yn gwneud darpariaeth i etholwyr lleol archwilio'r cyfrifon a gofyn cwestiynau i'r Archwilydd Cyffredinol am y cyfrifon neu wrthwynebu'r cyfrifon.

Cyfeiriwyd y Bwrdd Claddu ataf oherwydd oedi wrth lunio cyfrifon i'w harchwilio ar gyfer 2015-16 a 2016-17

- 14 Mae fy ngwaith archwilio ar gyngorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol a gwblheir gan y cyngorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi, a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.
- 15 Fel arfer, mae fy ngwaith archwilio yn cael ei wneud gan gwmni cyfrifyddu BDO ar fy rhan. Oherwydd oedi cyn iddo gael y datganiadau blynyddol ar gyfer 2016 -17 ac oedi cyn iddo gael ymatebion i ymholiadau archwilio a ddeilliodd o fy archwiliad 2015-16 cyfeiriodd BDO y Bwrdd Claddu ataf ym mis Mai 2018.
- 16 Mae fy ngwaith archwilio wedi nodi diffyg cydymffurfio sylweddol â gofynion archwilio.

Arddangosyn 2: cyflwyno cyfrifon

Mae'r Bwrdd Claddu wedi methu â darparu cyfrifon i'w harchwilio'n amserol bob blwyddyn ers 2015-16.

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Ardystiwyd gan RFO	29.06.2016	30.07.2018	30.07.2018	Chwefror 2020	Heb eu cyflwyno
Cymeradwywyd gan y Bwrdd Claddu	29.06.2016	30.07.2018	30.07.2018	Chwefror 2020	Heb eu cyflwyno
Statws archwilio	Anghyflawn	Anghyflawn	Anghyflawn	Anghyflawn	Anghyflawn
Hysbysiadau gofynnol wedi'u cyhoeddi	Na	Na	Na	Na	Na

Ffynhonnell: Datganiadau blynyddol Cyd-fwrdd Claddu Abergele a gohebiaeth â BDO ac Archwilio Cymru

- 17 Rwyf wedi cael copi o lythyr gan y Clerc wedi'i gyfeirio at BDO dyddiedig 30 Gorffennaf 2018 yn datgan, 'Rwy'n amgáu Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y blynyddoedd 2016-7 a 2017/8... Bydd y dogfennau ategol yn cael eu hanfon mewn amlen ar wahân maes o law.' Ni chafodd BDO y llythyr hwn na'r datganiadau blynyddol. Rhoddodd y Clerc gopi i mi o'r datganiadau blynyddol a oedd mewn llythyr dyddiedig 1 Awst 2018.
- 18 Ni roddodd y Clerc unrhyw wybodaeth bellach i BDO ac, felly, ym mis Rhagfyr 2018, penderfynais y byddai'r archwiliad yn cael ei gwblhau gan Archwilio Cymru. Daeth y Clerc i gyfarfod archwilio ym mis Rhagfyr 2018 a darparodd ddogfennau i fy ngalluogi i gynnal archwiliad o gyfrifon 2015-16 i 2017-18. Darparwyd cyfrifon 2018-19 i'w harchwilio ym mis Chwefror 2020. Hyd yma nid wyf wedi cael cyfrifon 2019-20. Cefais wybod y bydd y rhain yn cael eu darparu'n fuan ac y bydd cyfrifon 2020-21 ar gael erbyn mis Mehefin 2021.

Ni weithredodd y Bwrdd Claddu na chyfarfod dros gyfnod o bron i ddwy flynedd gan arwain at oedi cyn cyflwyno cyfrifon

- 19 Cadarnhaodd fy archwiliad na wnaeth y Bwrdd Claddu gynnal unrhyw gyfarfodydd rhwng 29 Mehefin 2016 ac 11 Mai 2018. Rhoddwyd gwybod i mi fod cyfarfodydd wedi'u galw ond nad oedd y niferoedd a oedd yn bresennol yn ddigonol oherwydd salwch a diffyg cynrychiolaeth o un cyngor. Yn ystod y cyfnod hwn, nid oedd yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau gan fod yn rhaid i bob penderfyniad a wneir

gan y Bwrdd Claddu gael ei wneud gan fwyafrif yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod.

- 20 Mae cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2018 yn cyfeirio at gymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016. Mae'r cofnodion hefyd yn cyfeirio at ddarparu gwybodaeth am falansau banc a nodiadau o dan 'adroddiad y Clerc', yn datgan bod 'y fynwent wedi gweld newid aruthrol dros y ddwy flynedd ddiwethaf'.
- 21 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y Bwrdd Claddu wedi gwneud unrhyw benderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn o ddwy flynedd.
- 22 Mae'n hanfodol, er mwyn arfer trefn lywodraethu priodol, fod y Bwrdd Claddu yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd Claddu yn cymeradwyo ffioedd a thaliadau, eitemau i'w talu a'r cyfrifon blynyddol. Heb unrhyw gyfarfodydd, ni all y Bwrdd Claddu gyflawni'r swyddogaethau claddu y dirprwywyd iddo eu cyflawni yn briodol.
- 23 Rhoddwyd gwybod i mi fod y Bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ers 2018.

Er gwaethaf cyfrifoldebau'r Bwrdd Claddu, o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o swyddogaethau'r Bwrdd Claddu a'r cynghorau tref bu gwaith Cyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel yn goruchwylio'r Bwrdd Claddu yn ddiffygiol

Bu'r Bwrdd Claddu yn gweithredu fel corff ymreolaethol heb oruchwyliaeth y ddau gyngor tref

- 24 Rwyf wedi cael copi o ohebiaeth rhwng y Clerc a chlerc Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel ynghylch statws y Bwrdd Claddu. Yn yr ohebiaeth hon, mae'r Clerc yn honni'r canlynol:

Mae Cyd-fwrdd Claddu Abergele wedi bodoli ers 1886 a gan fod gennym ein rheolau sefydlog a'n cylch gorchwyl ein hunain a'r ffaith ein bod yn gwneud datganiadau blynyddol, ceir cyngor anghyson, ac fel y gwyddoch mae'r rheolau ar gyfer Cymru a Lloegr yn amrywio.

Nid ar unrhyw adeg dros y blynyddoedd, bu'n ofynnol i'r [Pwyllgor Claddu] anfon copiâu o agendâu, cofnodion, datganiadau i'r cynghorau sy'n aelodau er mwyn iddynt gael eu trafod a'u hadolygu gyda chynghorwyr eraill nad ydynt yn rhan o'r Bwrdd Claddu, mae rhywfaint o'r wybodaeth a gynhwysir weithiau yn wybodaeth sensitif iawn oherwydd natur y Bwrdd Claddu.
- 25 Mewn cyfarfod archwilio ym mis Rhagfyr 2018, mynegodd Clerc a chynrychiolwyr aelodau'r Bwrdd Claddu o'r ddau gyngor eu dealltwriaeth bod y Bwrdd Claddu, er ei fod yn cynnwys aelodau o'r ddau gyngor yn bennaf, yn gorff cwbl ar wahân ac

annibynnol. Cadarnhaodd y Clerc a'r aelodau na chyflwynir unrhyw gofnodion nac adroddiadau gan y Bwrdd Claddu i'r ddau gyngor tref.

- 26 Hysbyswyd aelodau'r Cyngor nad yw'r Bwrdd Claddu yn atebol i'r cynghorau tref:
- Mae cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Abergele ym mis Medi 2019 yn cofnodi ei fod wedi cael ymholiad e-bost gan y Cynghorydd Wood gyda chais am ddiweddariad ynghylch Cyd-fwrdd Claddu Abergele. Mae'r cofnodion yn cofnodi bod y Cynghorydd Wood wedi rhoi rhesymau llawnach dros wneud y cais hwn ond dywedwyd wrtho nad yw Cyd-fwrdd Claddu Abergele wedi cael unrhyw praesept am bedair blynedd ac felly nad oedd yn atebol i'r Cyngor Tref.
 - Mae cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel ar 26 Medi 2018 yn nodi:
 - a) Ni ddylid rhannu cofnodion drafft sy'n ymwneud â Chyd-fwrdd Claddu Abergele â'r un o'r ddau Gyngor Tref, nes eu bod wedi'u cymeradwyo gan Gyd-fwrdd Claddu Abergele.
 - c) Dim ond tri Bwrdd Claddu Annibynnol sydd yng Nghymru, ac mae Cyd-fwrdd Claddu Abergele yn un ohonynt.
- 27 Mae cyfeiriad at y Bwrdd Claddu yng nghofnodion y cynghorau tref ers 2018 wedi'i gyfyngu i gyfeiriad at fy archwiliad parhaus.
- 28 Er gwaethaf yr honiadau a wnaed gan y Clerc ac aelodau'r Bwrdd Claddu, rwyf wedi cael adroddiad drafft a baratowyd gan Brif Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y pryd o 1998. Paratowyd yr adroddiad i ymdrin ag anghydfod a oedd wedi codi ynghylch y cyfraniadau i'w talu gan y cynghorau cyfansoddol ar y pryd. Mae'r adroddiad drafft hwn yn nodi'n glir fod 'Cyd-bwyllgor Claddu Abergele ('y Cyd-bwyllgor') yn Gyd-bwyllgor a sefydlwyd o dan adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gynnal y fynwent yn Abergele. Aelodau'r Cyd-bwyllgor yw Cynghorau Cymuned Cyngor Tref Abergele, Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel, Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd y Foel a Chyngor Cymuned Llanfair Talhaearn.
- 29 Mae'r adroddiad drafft hwn yn dangos bod y Bwrdd Claddu wedi bod yn ymwybodol yn y gorffennol o'i statws o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- 30 Gofynnwyd i'r Bwrdd Claddu ddarparu mwy o dystiolaeth i gefnogi ei honiad ei fod yn gorff annibynnol ar wahân, nad yw'n destun goruchwyliaeth gan y cynghorau tref. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol o'r fath.

Sefydlwyd y Bwrdd Claddu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel cyd-bwyllgor sy'n cyflawni cyfrifoldebau claddu ar gyfer y cynghorau cymuned cyfansoddol ac felly mae'n destun goruchwyliaeth gan y cynghorau cyfansoddol

- 31 Yn fy marn i, mae dealltwriaeth y Bwrdd Claddu a'r cynghorau tref o statws y Bwrdd Claddu yn ddiffygiol.

- 32 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu'r sail statudol ar gyfer darparu swyddogaethau claddu gan gyrrff llywodraeth leol. Mae Adran 214 Mynwentydd ac Amlosgfeydd yn datgan:
- (1) The following authorities, that is to say, the councils of Welsh counties, county boroughs... and communities... shall be burial authorities for the purposes of, and have the functions given to them by, the following provisions of this section and Schedule 26 to this Act, and—
 - (a) the powers conferred by the Burial Acts 1852 to 1906 to provide burial grounds shall cease to be exercisable; and
 - (b) any existing burial board, joint burial board or joint committee with the powers of such a board established under the Burial Act 1852 or section 53(2) of the Local Government Act 1894 or by any local statutory provision shall cease to exist.
 - (2) Burial authorities may provide and maintain cemeteries whether in or outside their area.
- 33 Felly, mae Adran 214 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn glir:
- a. mai cynghorau cymuned (tref) yw'r awdurdodau claddu;
 - b. nad yw swyddogaethau statudol a roddwyd o dan ddeddfwriaeth flaenorol yn berthnasol mwyach; a
 - c. diddymwyd y byrddau a'r pwyllgorau claddu a oedd yn bodoli eisoes.
- 34 Ceir rhagor o fanylion am gyflawni swyddogaethau awdurdodau claddu yn Atodlen 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae paragraff 1 yn datgan:
- 'In relation to a cemetery or crematorium maintained immediately before 1st April 1974 by a burial board, joint burial board or committee which ceases to exist by virtue of section 214 above the functions conferred by the said section 214 and this Schedule shall, subject to the provisions of any order made under section 254 above, be exercised on and after that date by whichever of the following burial authorities is relevant:—
- (a) where the area of the board or committee becomes wholly comprised on that date in a... community having a... community council, whether separate or common, that council;
 - (b) where that area becomes comprised in two or more such... communities, the councils of those... communities, acting jointly;'
- 35 Felly, yn yr achos hwn mae Cyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel yn awdurdodau claddu at ddibenion y Ddeddf ac yn arfer swyddogaethau claddu ar y cyd. Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu harfer gan y Bwrdd Claddu, gan ei fod yn gyd-bwyllgor y ddau gyngor tref ac nid yn gorff annibynnol. Yna mae'n dilyn bod y Bwrdd Claddu yn atebol i'r ddau gyngor tref ac yn destun goruchwyliaeth gan y cynghorau tref.
- 36 Rhoddwyd gwybod i mi fod Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd y Foel wedi gadael y Bwrdd yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996 a bod Cyngor

Cymuned Llanfair Talhaearn wedi gadael gan nad oedd unrhyw un o drigolion y Cyngor wedi'i gladdu yn y fynwent ers cryn amser.

Bu diffyg goruchwyliaeth gan y cyngorau tref cyfansoddol o'r Bwrdd Claddu

- 37 Mae fy adolygiad o gofnodion y ddau gyngor tref yn awgrymu bod eu gwaith yn goruchwyllo'r Bwrdd Claddu yn gyfyngedig. Mae cyfeiriadau at y Bwrdd Claddu yng nghofnodion y cyngorau tref ers 2018 wedi'u cyfyngu i gyfeiriadau at fy archwiliad parhaus.
- 38 O ganlyniad i hyn, roedd y gwaith o oruchwyllo'r Bwrdd Claddu yn ddiffygiol ac ni thynnwyd digon o sylw at yr oedi wrth gwblhau'r cyfrifon statudol.
- 39 Yn ei ymateb i fy nghanfyddiadau cychwynnol, tynnodd Cyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel fy sylw at ohebiaeth flaenorol â'r Bwrdd Claddu, pan honnodd y Bwrdd Claddu nad oedd yn atebol i'r cyngorau tref. Tynnodd y Cyngor sylw at y ffaith bod y Bwrdd Claddu wedi methu â darparu gwybodaeth i'r Cyngor pan ofynnwyd iddo wneud hynny.
- 40 Nododd Cyngor Tref Abergele a Chyngor Tref Tywyn a Bae Cinmel hefyd y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad hwn gan gynnwys cael cofnodion, cyfrifon blynyddol ac adroddiadau rheolaidd oddi wrth y Bwrdd Claddu.
- 41 Mae'r Bwrdd ei hun wedi penderfynu gweithio gyda'r ddau gyngor i ddarparu digon o wybodaeth ac adroddiadau i wella tryloywder a hwyluso craffu gan y cyngorau.

Bydd cyflogi cyngorydd mewn swydd mewn swyddogaeth â thâl gan y Bwrdd Claddu yn gwneud unrhyw daliad cydnabyddiaeth a delir i'r cyngorydd yn anghyfreithlon yn ei swyddogaeth yn Glerc y Bwrdd Claddu

- 42 Mae Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cadarnhau'r pŵer statudol i gyngorau benodi staff ac yn datgan:
 - (1) Without prejudice to section 111 above but subject to the provisions of this Act, a local authority shall appoint such officers as they think necessary for the proper discharge by the authority of such of their or another authority's functions as fall to be discharged by them...
 - (2) An officer appointed under subsection (1) above shall hold office on such reasonable terms and conditions, including conditions as to remuneration, as the authority appointing him think fit...

(5) Without prejudice to the provisions of subsection (1) above, a... community council may appoint one or more persons from among their number to be officers of the council, without remuneration.

- 43 Mae Adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwahardd cynghorau'n benodol rhag cyflogi aelodau sydd mewn swydd yn swyddogion cyflogedig:
- 'A person shall, so long as he is, and for twelve months after he ceases to be, a member of a local authority, be disqualified for being appointed [or elected] by that authority to any paid office, other than to the office of chairman or vice-chairman...'
- 44 Ar y sail hon, er fy mod yn derbyn bod y Cynghorydd McRae wedi bod yn cyflawni swyddogaeth Clerc y Pwyllgor ac wedi ymrwmo i gontract cyflogaeth yn ddiwyll, mae'n amhriodol iddi gael ei chyflogi mewn swydd â thâl i gefnogi'r Pwyllgor. Rwy'n ystyried ei bod yn bwysig tynnu sylw hefyd at y ffaith y bu hyn yn arferiad hanesyddol gyda chynghorwyr mewn swydd yn cael eu cyflogi'n glerc cyn y Cynghorydd McRae.
- 45 Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd i'w harchwilio, nid yw'n ymddangos bod y Clerc wedi derbyn cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18. Fodd bynnag, byddai unrhyw wariant a ysgwyddwyd felly yn y blynyddoedd dilynol yn groes i adran 116 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn fy marn i.

Nid yw'r Pwyllgor na'r Cynghorau wedi datgelu'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei datgelu'n gyhoeddus

- 46 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddarparu dogfennau amrywiol ar ei wefan. Bwriad y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 yw gwella atebolrwydd cynghorau lleol a'u pwyllgorau ar gyfer eu hetholwyr.
- 47 Nododd fy archwiliad nad yw'r Bwrdd Claddu wedi sefydlu ei wefan ei hun ac nad yw wedi gwneud trefniadau gydag un o'r cynghorau tref cyfansoddol i gyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chyhoeddi'n electronig.
- 48 Mae **Arddangosyn 3** yn nodi rhywfaint o'r wybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ei chyhoeddi a fy asesiad archwilio o gydymffurfiaeth.

Arddangosyn 3: yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi'n electronig yn ogystal â'r cyfrifon blynyddol

Nid yw'r Bwrdd Claddu wedi cyhoeddi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddo ei chyhoeddi.

Gofyniad cyhoeddi	Asesiad yr archwiliad o gydymffurfiaeth	Sylwadau
Hysbysiadau cyhoeddus yn cynnwys hysbysiadau sy'n nodi hawliau'r cyhoedd i arolygu cyfrifon o dan Ddeddf 2004	Dim cydymffurfiaeth	Dim tystiolaeth o gyhoeddi
Cyfrifon blynyddol	Dim cydymffurfiaeth	Dim tystiolaeth o baratoi ar gyfer 2018-19 na'u cyhoeddi ar gyfer unrhyw flwyddyn
Cofrestr buddiannau aelodau	Dim cydymffurfiaeth	Dim tystiolaeth o gyhoeddi
Manylion cyswllt aelodau	Dim cydymffurfiaeth	Dim tystiolaeth o gyhoeddi
Cofnodion, agendâu a phapurau cyfarfodydd ffurfiol	Dim cydymffurfiaeth	Dim cyhoeddiad ar-lein o unrhyw gyfarfodydd pwyllgor

Ffynhonnell: Asesiad Archwilio Cymru

- 49 Yn fy marn i, mae'r Bwrdd Claddu a'r cynghorau tref wedi methu â bodloni'r safonau tryloywder ac atebolrwydd sylfaenol sy'n ofynnol gan gynghorau cymuned yng Nghymru.

Argymhellion statudol a'r camau nesaf

Argymhellion statudol

- 50 Tynnaf sylw'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau at yr argymhellion canlynol i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Yn fy marn i, dylai'r Cyngor ystyried yr argymhellion hyn yn unol â gofynion adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Arddangosyn 4: argymhellion statudol

Dylai'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau ystyried y pedwar argymhelliad canlynol yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

Argymhellion statudol	
A1	Dylai'r Bwrdd Claddu sicrhau bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu diweddarau cyn gynted â phosibl, ac ar gyfer 2020-21 ymlaen eu bod yn cael eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â'r Rheoliadau.
A2	Dylai'r Bwrdd Claddu sicrhau bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu rhoi i'r Archwilydd Cyffredinol yn syth ar ôl eu cymeradwyo ynghyd â'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr archwiliad.
A3	Dylai'r Bwrdd Claddu sicrhau wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i brosesau arferol, e.e. cyflogi staff, ei fod yn deall y fframwaith statudol perthnasol ac yn ceisio cyngor allanol pan fo hynny'n briodol.
A4	Dylai'r Cynghorau sicrhau eu bod yn craffu'n briodol ar weithgareddau'r Bwrdd Claddu gan gynnwys derbyn adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r Bwrdd.

Y camau nesaf

- 51 Mae'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau eisoes wedi ystyried drafft o fy adroddiad ac wedi cymryd rhai camau i ymdrin â'r argymhellion a wnaed. Fodd bynnag, er gwaethaf unrhyw gamau a gymerwyd eisoes, mae adran 25 o Ddeddf 2004 bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau ystyried yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn mewn cyfarfod i'w gynnal o fewn mis i'r dyddiad y byddaf yn cyhoeddi'r argymhellion.
- 52 Yn y cyfarfodydd hyn, bydd angen i'r Bwrdd Claddu a'r Cynghorau benderfynu:
 - a ddylid derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad; a
 - pha gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.
- 53 Yna bydd angen i bob corff baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb.

54 Tynnaf sylw hefyd at y gofynion cyhoedduswydd ar gyfer y cyfarfod a nodir yn adran 26 o Ddeddf 2004.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Archwilio Cymru



Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English .
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.